# Prosiectau Gwelliant Cydweithredol QAA Cymru 2024-25 a ariennir gan Medr

## Galwad am Fynegiant o Ddiddordeb

**A hoffech chi arwain Prosiect Gwelliant Cydweithredol gyda chydweithwyr a myfyrwyr o ddarparwyr addysg drydyddol eraill yng Nghymru?**

## Beth yw Prosiect Gwelliant Cydweithredol?

1 Mae Prosiect Gwelliant Cydweithredol yn weithgor o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, sydd â'r nod o hyrwyddo cydweithio a datblygiad o fewn y sector.

2 Mae'r rhain yn brosiectau lle mae grwpiau o ddarparwyr yn cytuno i gydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall, sydd â'r potensial i ychwanegu gwerth at y sector cyfan unwaith y byddant wedi'u cwblhau (er enghraifft, ar ffurf allbwn y gellir ei gyhoeddi neu sefydlu menter gwelliant megis Rhwydwaith neu Gymuned Ymarfer). Gall prosiectau gynnwys amrywiaeth o rolau staff a disgyblaethau, yn dibynnu ar y pwnc, a dylent gynnwys myfyrwyr a/neu gynrychiolwyr myfyrwyr fel rhan o gynllun a chyflwyniad y prosiect. Gofynnir i'r grwpiau prosiect hyn adrodd ar eu cynnydd i QAA Cymru a rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'u gweithgaredd yn rheolaidd. Bydd y grwpiau prosiect hyn yn cael eu cefnogi gan QAA Cymru, trwy arian grant Medr, a rhywfaint o gymorth hwyluso gan staff.

3 Fe'ch gwahoddir i fynegi diddordeb mewn arwain Prosiect Gwelliant Cydweithredol. Mae'r alwad hon ar gyfer **un prosiect yn unig**, sydd i'w ariannu trwy Lythyr Grant Medr ar gyfer gweithgareddau sector addysg drydyddol a hwylusir gan QAA. Nid oes maes pwnc penodol, felly mae QAA yn croesawu cynigion mewn unrhyw faes pwnc, tra'n ystyried y meini prawf ym mharagraff 10.

## Pa brosiectau y mae QAA wedi'u cefnogi o'r blaen?

4 Fel sefydliad, mae gan QAA hanes hir o gefnogi gweithgarwch gwelliant cydweithredol ar draws y sector.

5 Yn benodol yng Nghymru, lansiodd QAA Cymru alwad am y Prosiectau Gwelliant Cydweithredol cyntaf ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2021 yn ogystal â chefnogi prosiectau trwy gyllid grant CCAUC yn 2022-23 a 2023-24. Rhoddir sylw i'r prosiectau hyn ar wefan QAA.

6 Mae QAA yn cefnogi Prosiectau Gwelliant Cydweithredol sy'n cael eu harwain gan aelodau yn Lloegr trwy aelodaeth QAA ledled y DU. Gellir dod o hyd i'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sydd ar ddod ar wefan QAA.

7 Bu QAA hefyd yn cefnogi clystyrau cydweithredol fel rhan o Themâu Gwelliant QAA yr Alban. Mae ystod o ganlyniadau ac allbynnau o bob clwstwr cydweithredol ar gael ar y wefan Themâu Gwelliant.

## Sut mae'r pynciau'n cael eu dynodi a'u dewis?

8 Ar gyfer 2024-25, mae QAA Cymru wedi derbyn cyllid gan Medr i gefnogi un prosiect, nad oes ganddo faes pwnc penodol. Dylai pob cynnig prosiect ystyried diffiniad QAA o welliant: ***defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau a fwriedir i wella profiad dysgu myfyrwyr.***

9 Os byddwn yn derbyn mwy o gynigion nag y gallwn eu cefnogi ar hyn o bryd, mae gennym gyfres o feini prawf ar gyfer dethol y bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hystyried yn eu herbyn (gweler paragraff 10).

## Beth yw'r broses a'r meini prawf ar gyfer dethol?

10 Bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hadolygu gan QAA Cymru o ran:

- nifer y sefydliadau (a/neu undebau myfyrwyr) sy'n ymwneud yn weithredol â'r prosiect (yn gyffredinol, byddai hyn o leiaf dri neu bedwar) ar draws y sector addysg drydyddol
- potensial i'r sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd elwa o'r gwaith ar ôl ei gwblhau
- effaith ar / budd i'r darparwyr sy'n ymwneud â'r gweithgor a'u myfyrwyr
- faint o ymgysylltiad myfyrwyr sydd yn y gweithgaredd
- ystyriaeth o'r effaith gadarnhaol y bydd y prosiect yn ei chael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / dwyieithog a chyfleoedd ar gyfer astudio
- cynlluniau ar gyfer lledaenu deilliannau ar draws y sector
- gwerth am arian
- y gallu i gwblhau'r prosiect erbyn 31ain Gorffennaf 2025

## Beth yw'r dyddiadau allweddol?

11 Mae'r dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r alwad hon am ddatganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:

- dylid dychwelyd datganiadau o ddiddordeb i h.thomas@qaa.ac.uk a chopi i ARCAadmin@qaa.ac.uk erbyn **9 Rhagfyr 2024** (rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg a Saesneg)
- bydd arweinwyr prosiect llwyddiannus yn cael eu hysbysu yn **Ionawr 2024**.
- bydd angen i gynigion llwyddiannus ar gyfer prosiectau gychwyn ac ymrwymo gwariant yn 2024-25

## Beth yw lefel y cymorth ariannol?

12 Bydd yr arian a ddyrennir ar gyfer datganiadau o ddiddordeb llwyddiannus yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a'r canlyniadau a ragwelir; **ni fydd** gwariant fesul prosiect **yn fwy na £5,000**. Dylai mynegiadau o ddiddordeb gynnwys manylion ynghylch faint o arian ac adnoddau eraill rydych chi'n gofyn amdanynt, ynghyd ag arwydd o sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.

13 Gallai'r cyllid gefnogi eich prosiect yn y ffyrdd canlynol:

- darparu cyllid i alluogi gweithgaredd sefydliadol i gael ei ymestyn er budd darparwyr ychwanegol

- cyllid ar gyfer myfyrwyr sy'n bartneriaid a/neu interniaid i gefnogi cyflwyno'r prosiect
- cymhellion i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a grwpiau ffocws
- talu am leoliadau, arlwyo, teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau'r prosiect
- costau cynhyrchu megis dylunio graffeg, argraffu, golygu a chynhyrchu fideo
- cymorth gweinyddol penodol
- cynnal digwyddiadau lledaenu gwybodaeth i'r sector addysg drydyddol.

14 Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi eich allbynnau arfaethedig, a allai gynnwys:

- datblygu adnoddau ymarferol i'w cyhoeddi ar gyfer y sector addysg drydyddol ehangach
- cynhyrchu deunydd ysgrifenedig neu adnodd amlgyfrwng i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr a staff (er enghraifft, astudiaethau achos)
- sefydlu Rhwydwaith neu Gymuned Ymarfer
- cymorth ar gyfer gwerthuso menter sy'n bodoli eisoes
- cymorth i ddatblygu arfer da neu ganllaw cyfeirio cyflym ar gyfer myfyrwyr a staff

Nid yw hon yn rhestr gyflawn - bydd allbynnau arfaethedig eraill yn cael eu hystyried.

15 Sylwch y disgwylir i bob prosiect ystyried gofynion cyfieithu Cymraeg/Saesneg o fewn eu cynigion a'u cyllideb.

## Beth ydym ni'n gofyn i ddarparwyr ei wneud?

16 Os oes gennych chi ddiddordeb mewn arwain prosiect, cwblhewch y Ffurflen Gais ar gyfer Mynegiant o Ddiddordeb.

17 Nodwch y math o gymorth rydych chi'n gofyn amdano gan QAA Cymru i hwyluso'ch gwaith arfaethedig. Fel rhestr ddangosol, gallai enghreifftiau o gymorth gynnwys:

- cyfeirio at ddeunydd sydd ar gael yn rhwydd yn QAA sy'n ymwneud â'r pwnc
- cymorth ar gyfer gwerthuso menter
- hyrwyddo'r prosiect trwy sianeli cyfathrebu QAA
- darparu cefnogaeth ymarferol er mwyn caniatáu i gyfarfod gael ei gynnal ar-lein neu wyneb-yn-wyneb.
- cyngor ar gyfieithu allbynnau terfynol.

## Oes gennych chi ddiddordeb ac eisiau cymryd rhan?

18 Os hoffech chi drafod cynnig neu syniadau ar gyfer prosiect, hoffem glywed gennych. Gallwch gysylltu â ni yn h.thomas@qaa.ac.uk neu ARCAadmin@qaa.ac.uk.

Diolch am eich diddordeb a'ch cefnogaeth yn y cyfle hwn a ariennir gan Medr mewn cydweithrediad â QAA Cymru - edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Cyhoeddwyd – 17 Hydref

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk